

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Cofnodion Cyfarfod 14 Tachwedd 2019 yng Ngholeg y Bedyddwyr, Heol Richmond, Caerdydd.

Yn bresennol: Rheinallt Thomas (Llywydd); Gethin Rhys, Martin Spain (Trysorydd) Vaughan Salisbury; Irfon Roberts; Eirian Wyn; Aled Davies; Judith Morris; Alun Tudur; Ian Morris; Simon Walkling; Brian Matthews; Meirion Morris; Steffan Wiliam (Cyfieithydd); Helen Jones (Ysgrifennydd)

Derbyniwyd Ymddiheuriadau : Peter Dewi Richards; Chris Gillham; George Baker; Tim Daniel; Nerys Siddall; Gareth Morgan Jones; Dyfrig Rees; Aled Jones; Bryn Williams; Peredur Owen Griffiths; Paul Rochester

1. Croeso - Croesawodd y Llywydd bawb i'r cyfarfod yn arbennig dau aelod newydd oedd yn bresennol am y tro cyntaf. Cyn-lywydd EBC – Brian Matthews o Wrecsam a Simon Walkling (EDdU) o Bontypridd. Croesawyd hefyd Steffan Wiliam y Cyfieithydd. Nodwyd byddai Ian Morris yn gadael y cyfarfod ganol dydd ac Eirian Wyn wedi cinio. Derbyniwyd yr ymddiheuriadau. Derbyniwyd gwybodaeth y byddai Peredur Owen Griffiths yn cael anhawster i fod yn bresennol ym mhob cyfarfod yn y dyfodol oherwydd dyletswyddau gwaith cydlynu Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru ac angen llenwi bwlch a adawyd gydag ymddeoliad Sally Thomas o'i swydd gyda Cytûn.

2. Defosiwn - Er ei anallu i fod yn bresennol anfonodd Nerys Siddall ei Defosiwn ar gyfer y cyfarfod a darlennodd y Llywydd ei gynnwys i'r Cyngor gan werthfawrogi ei hymdrech i ddarparu a'r neges a gyflwynwyd.

3. Cofnodion 23 Mai 2019 – Derbyniwyd y cofnodion o gyfarfod 23 Mai. Cynigiwyd gan Aled Davies ac eiliwyd gan Martin Spain. Cytunodd pawb.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. –

3ii. Hyfforddiant Diwinyddol/ Gweinidogaethol – Nodwyd bod y 3 enwad wedi eu cynrychioli yn y Coleg Cenedlaethol mis Mai diwethaf.

3iv. Dogfen Gweinidogaeth Bro – Nodwyd bydd cyfarfod ym mis Ionawr.

8. Oedfa'r Eisteddfod. Penderfynwyd bydd angen i CERhC ysgrifennu at Fwrdd yr Eisteddfod yn dymuno ail sefydlu Oedfa Bore'r Sul yn y Pafiliwn. Soniwyd am broblem oedd wedi bodoli o sicrhau i'r cyhoedd dalu am ddod i fewn i gystadleuthau ar y Sul ac amhosibl oedd i fonitro pwy oedd yn mynychu Oedfa a phwy oedd yn dod i wrando ar y cystadleuthau. Eglurwyd mai bwriad y Llywodraeth yng Nghaerdydd yw talu am docynnau'r Sul a gwarantu mynediad am ddim i bawb sy'n byw o fewn cylch 20 milltir o'r Eisteddfod. Byddai hyn yn galluogi cynulleidfa deilwng i'r gwasanaeth ar y bore Sul. Dywedwyd nad oedd capel o maint Seion Llanrwst yn ardal Tregaron.

9. Dogfen Ymgynghorol Cwricwlwm newydd – Pwynt gweithredu Aled: Diolchwyd am y wybodaeth a dderbyniwyd. Dylai aelodau CERhC holi o fewn eglwysi eu hardaloedd am y gwaith a wneir mewn ysgolion a gadael i Aled wybod. Gofynnir i Ysgrifenyddion yr Enwadau anfon rhestr gywir i Aled erbyn Tachwedd 2020. Diolchwyd i Aled am ei waith. Nodwyd bod yn bwysig cofio bod gwahaniaeth rhwng addoli ar y cyd a gwersi addysg grefyddol.

11. Cynhaliwyd dwy Oedfa i gyflwyno Medalau Gee mis Medi –un yn y De a'r llall yn y Gogledd. Derbyniodd pawb lythyr Apêl Cyngor Ysgolion Sul. Cafwyd gwahoddiad i Oedfa o ddiolchgarwch am waith Gobaith i Gymru (GiG) a beibl.net ar 29 Chwefror 2020 ym Mhenuel, Caerfyrddin.

Pwynt Gweithredu: 1. Ysgrifennu at Fwrdd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dymuno ail sefydlu Oedfa'r Bore Sul yn y Pafiliwn –2. Yr Enwadau ac unigolion i anfon gwybodaeth at Aled Davies - Diweddar rhestr am y gwaith a wneir yn yr ysgolion erbyn dechrau Tachwedd 2020

5. Cosbi Plant – Jon Luxton – Cognition Associates

Croesawyd Jon Luxton o gwmni cysylltiadau cyhoeddus Re:cognition i'r cyfarfod. Dyma'r cwmni sydd wedi eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i wneud gwaith ymgysylltu parthed y ddeddfwriaeth am gosbi plant. Roedd Jon yn awyddus i ddod i'r cyfarfod i roi cyflwyniad byr, ateb unrhyw gwestiynau, a rhoi ei fanylion cyswllt i bobl ddod nôl ato.

Cafwyd esboniad, ymateb a thrafodaeth manwl ar oblygiadau'r ddeddf. Mynegodd Jon bod angen adborth i werthfawrogi sut oedd grwpiau ffydd ar hyd a lled Cymru yn ymateb i'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Roedd eisioes wedi ymweld â llawer o gymunedau ffydd a sylwi bod ganddynt oll safbwyntiau gwahanol ar y pwnc o gosbi plant ac nad oeddent o reidrwydd yn llythrennol eu credo o fewn y gwahanol grefyddau. Gofid pennaf y crefyddau gwahanol oedd bod y wladwriaeth yn gor-gyffwrdd â bywydau personol teuluol a'r ddadl bod rhieni yn cael eu cosbi am ddisgyblu eu plant.

Dyma'r cefndir: Bydd y Bil yn helpu i ddiogelu hawliau plant. Os caiff ei basio, ni fydd yn creu trosedd newydd ond yn hytrach yn diddymu'r amddiffyniad yn y gyfraith gyffredin ar gyfer cosb resymol, fel na fydd yr amddiffyniad i ymosod ar blentyn neu ei guro bellach ar gael yng Nghymru i rieni nac i'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis. Ar hyn o bryd, mae'r amddiffyniad yn berthnasol i gyfraith trosedd a chyfraith sifil. O dan gyfraith trosedd, mae'n berthnasol o ran troseddau ymosod a churo yn y gyfraith gyffredin; ac o dan y gyfraith sifil, mae'n berthnasol o ran camwedd tresmasu yn erbyn y person.

Bwriad y Bil yw helpu i amddiffyn hawliau plant gan wahardd defnyddio cosb gorfforol, drwy ddileu'r amddiffyniad hwn. Bwriad effaith y Bil, ynghyd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chefnogi rhieni, yw lleihau ymhellach ar yr arfer o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru ac ar y graddau y caiff yr arfer ei oddef. Mae fideo effeithiol ddwyieithog ar gael wrth edrych ar llyw.cymrubilplantcymru . Bydd Jon Luxton yn ysgrifennu at brif swyddogion /Ysgrifenyddion yr enwadau i esbonio'r ddeddf.

Esboniwyd byddai'r ddeddf hon yn gyfatebol i ddeddf sy'n bodoli mewn 53 gwlad arall ac yn ategu hawl y plentyn. Byddai'n tynnu i ffwrdd amddiffyn rhieni gwael/ creulon rhag cymryd y ddadl mai cosb cyfreithiol oedd eu sancsiwn i ddisgyblu eu plant. Mae ymgyrch ar waith i hysbysu a chynorthwyo rhieni o wahanol ddiwylliannau fod gwerthoedd a chyfreithiau'r wlad hon yn wahanol. Soniwyd bod rhieni yng Nghymru â'r un meddylfryd am gosb a berthynai i genedlaethau cynt. Cred rhai bod hyn yn cymryd i ffwrdd eu dewis o sut i rianta. Soniwyd bod dosbarthiadau ar gael i gynorthwyo rhieni. Y gobaith yw gwneud gwell rhieni ond bod materion emosiynol yn codi. Ni fydd newid mawr yn y gyfraith ond mae'r bil yn cymryd i ffwrdd elfen fechan o'r hyn yw "cosb rhesymol."

Diolchwyd i Jon a'i gyd-gyfarwyddwr Louise am eu cyfraniad a'u hesboniadau o'r ddeddf. Gellir cysylltu gyda Jon Luxton trwy ebost: info@cognitionassociates
Gadawodd Ian Morris wedi'r drafodaeth hon.

Pwynt gweithredu: Ysgrifennydd i anfon manylion ebyst at Jon Luxton er mwyn iddo esbonio'r ddeddf cosbi plant

6. Addysg (gweler Atodiad a anfonwyd allan gyda phapurau'r cyfarfod)

Arhosodd Jon i'r item Addysg ar yr Agenda – gan ddeall y bydd yno fel ymgyngorydd y Llywodraeth. Diolchwyd i Vaughan am ei Adroddiad a gafodd ei ddisbarthu fel atodiad cyn y cyfarfod ac am ei ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn y papur Cwricwlwm am wersi Addysg Grefyddol. Codwyd pwynt sef yr hawl gan rieni i dynnu plant allan o wersi Addysg Grefyddol a'r ail oedd newid enw'r pwnc i "Bydolwg - Worldviews" oherwydd cynnwys safbwyntiau i sôn am ddyneiddiaeth

Yn gyffredinol o bersbectif Addysg bydd gwersi Addysg Grefyddol yn y dyfodol yn rhan o wersi "Dyneaethau". Byddai hyn yn golygu gwersi thematig o fewn y pwnc. Golygai hyn rhoi tua chwarter awr o wers Addysg Grefyddol a'i chlymu at wers hanes a/neu daearyddiaeth. Bu'n arferiad i dynnu plant allan o wersi Addysg Grefyddol ond gyda'r Cwricwlwm newydd byddent yn colli tua chwarter awr o bob gwers. Byddai hyn yn gwneud hi'n amhosibl i asesu plentyn ac o ran y Cwricwlwm newydd yn anymarferol. Nododd mai'r plentyn fyddai'n colli allan ar Addysg wrth fod yn anwybodus o Addysg Grefyddol a hyn yn arwain at syniadau rhagfarnllyd. I sicrhau Addysg Grefyddol gyflawn mae angen golwg eang ar grefydd yn lle magu plant anwybodus.

O ran enwi'r gwersi'n "bydolwg/world views" byddai hyn yn broblem i'w ddadasoddi – gan fod y gair yn luosog. Gwnaeth CORE yn Lloegr benderfyniad ar gwricwlwm heb ymweld â Chymru. Gwrthodwyd eu hadroddiad yng Nghymru o achos hyn.

Dywedodd Jon Luxton bod cyfraniad Vaughan yn debyg i lawer arall oedd e wedi clywed. Mae'n amlwg bod gwahaniaeth barn am enw'r pwnc. Awgrymodd Prifysgol Caerdydd i'r enw aros yr un gan fod cynnwys Addysgu ffydd, athroniaeth a chrefyddau arall yn werthfawr. Mynegwyd nad oedd diffiniad sylfaenol i'w gael ohono. Nododd Vaughan bod y papur yn tan seilio "di grefydd - non religious" ac yn aml roedd hyn yn cynddeiriogi'r sefyllfa. Bu ystod eang o farn am y pwnc gan fudiadau eraill. Soniwyd bod Cymdeithas Dyneiddwyr Cymru wedi llwyddo i lobio A.S. ac A.C. Gan bod llai na mil o bobl yn aelodau o'r Gymdeithas a 60,000 mil o Gristnogion yn rhan o CERhC. Gofidir bod lleiafrif bach yn llwyddo i gael eu henw ar y Pwnc.

Ar derfyn y drafodaeth gofynnodd y Llywydd a oedd pawb yn hapus gyda'r ymatebion i'r papur Ymgynghorol ac ni fu i neb wrthwynebu. Diolchwyd i Rheinalt am gyfieithu'r ymatebion o'r Saesneg ar ran Vaughan ac fe ddiolchwyd i Vaughan am ei waith gofalus gyda'r ymatebion. Diolchwyd hefyd i Jon Luxton am sefyll i'r drafodaeth a gwrando ar sylwadau'r Cyngor a gwneud sylwadau cyffredinol ar ran y Llywodraeth.

Enwi Darpar Lywydd CERhC

Cyhoeddwyd mai Simon Walkling, Cymedrolwr Synod Cenedlaethol Cymru'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig fydd yn cael ei sefydlu yn Lywydd CERhC ym mis Mai fel olynydd i Rheinalt Thomas. Soniodd y Llywydd fod Simon Walkling wedi bod yn Gymedrolwr Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig am 7 mlynedd. Mae Simon yn byw ym Mhontypridd. Mae ei

gefndir yn golygu ei fod wedi ymwneud â'r enwadau Anghydfurfiol ers blynyddoedd. Dyma fydd y tro cyntaf i Lywydd CERhC fod yn Siaradwr Saesneg er mae e'n dysgu siarad Cymraeg. Cadarnhawyd ei enwebiad gan y Cyngor.

Lawnsio lyfr "Gair Duw ar Waith" gan Parchedig Denzil John

Lawnsiwyd y llyfr newydd hwn cyn cinio. Cyfres o ffyrddodau yw yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith ymarferol mewn bywyd bob dydd. Cyflwynodd y Llywydd y copi cyntaf i'r Parchedig Denzil John yn y cyfarfod. Mae copiau yn gwerthu am £6.99 oddi wrth Cyhoeddiadau'r Gair.

Adroddiad Addysg - 6b Cafwyd parhâd ar Adroddiad Addysg gan nodi pwyntiau a welwyd yn yr Adroddiad a anfonwyd allan.

6c. Hyfforddiant Gweinidogaethol – Derbyniwyd neges oddi wrth Parch. Bryn Williams yn adrodd byddai'r bwrdd yn cyfarfod ym mis Ionawr 2020 ac nad oedd Adroddiad penodol i'w gael ar y hyn o bryd.

7. Caplaniaid (Carolyn Castle – Ymddiriedolaeth Cwm Taf Morgannwg)

Cyflwynwyd Carolyn Castle i'r Aelodau. Esboniodd ei chefnidir ar sut y daeth yn Gaplan ysbity. Dechreuodd drwy wirfoddoli gyda Grŵp Eglwys Rhyddion yn Llundain. Cafodd ei ordeinio yn weinidog gydag eglwys Pentecostaidd Elim. Esboniodd amrywiol agweddau o'i gwaith yn Bugeilio cleifion, eu teuluoedd a staff yr ysbity o fewn yr Ymddiriedolaeth. Mae hi'n ymdrin â bywyd ysbrydol y rhai dan ei gofal ac yn dod ar draws gwahanol grefyddau ac yn cysylltu â chrefyddwyr aml-ffydd fel bo'r angen.

Esboniodd Carolyn sut i ymgeisio am swydd Caplan – trwy wefan NHS Jobs Wales. Mae "rhybudd" yn cael ei roi ar ebost pan ddaw swydd i'w lenwi wedi cofrestru i wneud gwaith gwirfoddol. Mae banc o wirfoddolwyr tu cefn gyda'r Byrddau Iechyd i weithio dros nos. Tan yn ddiweddar llenwid Prif Gaplan y Byrddau Iechyd gan Offeiriad yr Eglwys yng Nghymru ond bellach mae 3 Anglican a 3 Anghydfurfiwr yn dal y swydd. (Prinder clerigion yw'r rheswm penodol ac nid yw'r Esgobion mor barod i ryddhau offeiriaid i wneud y swydd amser llawn.) Bydd Swyddi Caplaniaid Byrddau Iechyd yn cael eu hysbysebu'n y Gymraeg am y tro cyntaf o ganol fis Tachwedd.

Holwyd am argaeledd Offeiriad rhyngffydd a dwedwyd bod eu hargaeledd yn dibynnu ar angen ardal. Mae pob caplan yn cael ei dalu ond byddai'r swm yn amrywio o un Ymddiriedolaeth i'r llall.

Doedd dim i'w adrodd ar drafodaethau gydag Ymddiriedolaeth Iechyd Powys (item o Gofnodion mis Mai 2019.) Diolchwyd i Carolyn am ei phresenoldeb a'i hesboniad am ei gwaith.

PWYNT GWEITHREDU: Item Agenda mis Mai –1. Gethin Rhys - Darganfod gwybodaeth am aelodaeth Grŵp Eglwys Rhyddion gyda'r grŵp SHAW. 2. Gethin Rhys - Adroddiad ar y trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth Iechyd Powys (Cofnodion cyfarfod Mai 2019)

8. Grŵp Eglwys Rhyddion – Paul Rochester –Dim i'w adrodd.

9. Digwyddiadau y Llywydd

Cyflwynwyd ei ddyddiadur ers cyfarfod mis Mai fel Adroddiad gyda phapurau'r cyfarfod. Adroddodd bod yr wythnos 11-14 Tachwedd wedi bod yn brysur o ran gweithgareddau gan gynnwys Cyfarfod nos Lun yn dathlu Wythnos Rhyngffydd a Fforwm Ffydd y Prifweinidog yn y Senedd. Cafwyd sesiwn o 1½ awr. Deallwyd bod pobl yn awyddus i ymuno gyda'r grŵp – sy wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf.

10. Adroddiad Cytûn

Anfonwyd allan Bwletin Medi. Bellach mae Bwletin Etholiad i gael ar wefan Cytûn ac mae cyfarwyddiadau yno ar sut i gynnal "cyfarfodydd hystings". Bydd cyfarfod cyntaf Ymgeiswyr Seneddol yn Abertawe ar nos Fawrth 19 Tachwedd. Rhybuddiwyd na ddylai ymgeiswyr alw ar gartrefi gyda'r hwyr oherwydd y tywyllwch. Bydd rhestr ymgeiswyr terfynol ar gael ar 15 Tachwedd. Gan fod cytundebau yn bodoli rhwng y pleidiau byddai cynnal cyfarfod lleol gyda'r eglwysi'n symlach. Mae Cytûn yn fodlon bod o gymorth i drefnu'r sesiynau ond byddai'n rhaid i'r eglwysi lleol wahodd ymgeiswyr eu hardaloedd.

Materion ychwanegol – newid Hinsawdd a Brexit yn parhau.

Diolchwyd i Gethin a gwerthfawrogyd ei gyfraniad.

11. Adroddiadau'r Enwadau

Bedyddwyr – (Judith Morris) i. Nodir 2020 - Blwyddyn o Weddi – anfonir allan gweddiau o'r swyddfa i eglwys gan ddechrau ar Sul Adfent. ii. Gwnaed Adolygiad o waith yr Undeb. Bu'r Swyddogion yn ymweld â'r gwahanol Gymanfaoedd ac yn paratoi adroddiad. iii. Mae consyrn am ddyfodol Seren Cymru – niferoedd sy'n prynu wedi lleihau. iv. Yn 2020, bydd dathlu 50 mlynedd sefydlu Cartref Glynest.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru - (Meirion Morris) i. Mae'r eglwys i'n gweithio ar bolisi Amgylcheddol. ii. Mae'r gyfundrefn yn gweld problem cynyddol fod incwm yn lleihau a gwariant yn cynyddu. Mae dealltwriaeth y cenhedlaethau'n gwahaniaethu. iii. Mae gofod am Ymrwymiad Eciwmenaidd sy'n costio £42,000. Holir a ydy'r eglwys yn cael gwerth eu harian allan o hwn. iv. Mae gobeithion am ganlyniad cyd-hyfforddiant y 3 enwad.

Annibynnwyr – (Alun Tudur) i. Mae Apêl Madagasgar yn dirwyn i ben ddiwedd y flwyddyn ac wedi codi £155,000. Bydd yr arian yn cefnogi 4 prosiect yn y wlad. Mynegwyd yr hyfrydwch o gysylltu â hanes 200 mlynedd yn ôl a dysgu am y Cenhadon cynnar. Cyfieithwyd y Beibl i Madagaseg. Daeth pobl o Madagasgar ar ymweliad â Chymru ac aeth Cymry nôl ar ymweliad. Bu'r oll yn adeg o gofio a dathlu hanes yr Eglwys. ii. Mae trafodaethau wedi cymryd lle gydag arweinwyr amaethyddol i drefnu Caplaniaeth Cymraeg ym maes y Sioe yn Llanelwedd. Mae pryder gan ffermwyr/amaethwyr am Brexit a'r gofod yn sgîl amaethu yng Nghymru yn y dyfodol. iii. Mae Cronfa newydd gan yr Undeb wedi ei glustnodi ar gyfer Efengyl/Cenhadu a phlannu eglwys newydd. Ni fydd arian ar gael ar gyfer adeilad. Mae'r Undeb yn edrych ymlaen i hybu prosiectau newydd gan obeithio'n hyderus yn y dyfodol.

Eglwys Ddiwygedig Unedig – (Simon Walkling) i. Mae cynlluniau enwadol ar waith gyda'r bwriad o wneud cymuned o ddisgyblion. Mae llyfr ar yr eglwys cynnar ar gael ac mae trafod ar y math hynny o ddisgyblion. ii. Mae newid i'r Hyfforddiant llyg o fod yn un academaidd i un mentora. Ei enw ydy "Stepwise". iii. Mae'r eglwys yn gwneud gwerthusiad o gronfeydd Pensiwn. iv. Mae'r eglwys yn edrych i fewn i'w chysylltiad gyda chathwasaeth. v. Mae'r Synod yn gweld nifer Gweinidogion yn lleihau a dirywio. vi. Mae'r Synod am adeiladu ar gryfderau'r presennol yn hytrach na'r gwendidau. vii. Gwnaed penderfyniad i orffen defnyddio tanwydd ffosil.

Y Ffederasiwn Cynulleidfaol – (Martin Spain) i. Mae eglwys newydd wedi codi yn Abertawe. Pobl o Corea ydynt a chawsant eu derbyn yn swyddogol yn yr Undeb blyneddol yn yr Alban eleni. ii. Mae 2020 yn flwyddyn dathlu 400 mlynedd ers i'r Mayflower adael Plymouth a hwylio am yr Amerig. Bydd pobl Ifanc yn cael y cyfle i hwylio allan o Plymouth i Cape Cod fel y Tadau Pererin cynt.

12. Adroddiad y Trysorydd

1. Anfonwyd Mantolen allan cyn y cyfarfod. 2. Tâl aelodaeth – cyn anfon llythyr allan yn swyddogol nododd y Trysorydd ei fod wedi aros am gadarnhâd gan y 4 enwad. Bydd tâl aelodaeth CERhC yn codi'r flwyddyn nesaf i £450 y flwyddyn. Cafwyd ymateb positif gan y 4 enwad a byddant yn talu'r un swm sef – yr Eglwys Bresbyteraidd, y Methodistiaid, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg. Gan iddynt ymateb yn swyddogol gofynnir i aelodau eraill y Cyngor am godiad tâl o £150 y flwyddyn. Bydd y Trysorydd yn anfon llythyr allan i weithredu'r codiad yn gynnar yn 2020. Cytunodd pawb.

Mynegodd Martin y byddai yn gweithio fformiwla i sicrhau canran o godiad bob 3 blynedd yn y dyfodol. Mae aelodau'n teithio o'r rhanbarthau wedi codi'r angen am sicrhau bod arian ar gael i dalu treuliau. Daw adroddiad y gyllideb llawn ym mis Mai. Bydd Martin yn ôl ei arfer yn talu £500 o dreuliau i Cytûn ym mis Tachwedd.

13. UFA

1. Diolchodd Vaughan i Rheinallt am gyfieithu dogfen Ymgynghoriad Addysg i'r Gymraeg.
2. Diolchodd Rheinallt i Steffan am Gyfieithu.
3. Diolchodd i Helen am sicrhau anfon papurau'r cyfarfod, trefniadau bwyd a'r cofnodi.
4. Cyhoeddwyd bydd Cytûn yn symud swyddfa i Hastings House yn gynnar y flwyddyn newydd. Ni fydd hi'n bosibl i barcio yno ond mae maes parcio cyhoeddus yn gyfleus ac yn agos.

Nodwyd dyddiadau cyfarfodydd nesaf a'u lleoliad fydd yng Ngholeg y Bedyddwyr, Heol Richmond, Caerdydd

Gorffennwyd drwy gyd adrodd y Gras am 2.55.

Cyfarfodydd 2020 - dydd Llun 11 Mai ac yna dydd Iau 18 Tachwedd